# JONES, DAVID (1708? - 1785), o Drefriw, bardd, casglwr llawysgrifau, cyhoeddwr, ac argraffydd

**Enw:** David Jones
**Dyddiad geni:** 1708?
**Dyddiad marw:** 1785
**Priod:** Gwen ferch Richard ap Rhys
**Plentyn:** Ismael Davies
**Rhiant:** Jane ferch Elizabeth
**Rhiant:** Sion ap Dafydd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, casglwr llawysgrifau, cyhoeddwr, ac argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ychydig a wyddys am ei eni a'i ieuenctid. Rhoddir enw ei dad fel Siôn ap Dafydd yn NLW MSS 476 a 3107, ac enw ei fam fel Jane ferch Elizabeth Rowland yn B.M. Add. MS. 14888, a Jane ferch Dafydd ap Sion yn NLW MS 3107. Enw ei wraig oedd Gwen ferch Richard ap Rhys (NLW MS 3107), ond ni wyddys dyddiad y briodas; ceir yng nghofrestri plwyf Trefriw gofnod am briodas rhwng rhyw David Jones a Gwenna Prichard ar 27 Ionawr 1734-5.

Fel bardd ysgrifennodd gryn dipyn, ond nid enillodd fri mawr. Ei brif bwysigrwydd yw fel golygydd y flodeugerdd o farddoniaeth a elwir *Blodeu Gerdd Cymry, sef Casgliad o Caniadau Cymreig gan amryw Awdwyr o'r oes ddiwaethaf*, 1759. Golygodd hefyd weithiau fel *Histori Nicodemus*, 1745, hen gyfieithiad Cymraeg o'r '*Gospel of Nicodemus*,' *Egluryn Rhyfedd*, 1750, a *Cydymaith Diddan*, 1766, y ddau olaf yn gasgliadau o farddoniaeth a rhyddiaith. Yr oedd yn ddiwyd iawn hefyd fel casglwr hen lawysgrifau Cymraeg, a cheir ffrwyth ei lafur yng nghasgliadau'r Amgueddfa Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn ddiweddarach yn ei fywyd daeth gwasg argraffu i'w feddiant, ac ymsefydlodd fel argraffydd yn Nhrefriw. Dechreuodd argraffu yn 1776, a'r gwaith mawr cyntaf a ddaeth o'i wasg oedd *Historia yr Iesu Sanctaidd* yn 1776, cyfieithiad Cymraeg o'r '*History of the Holy Jesus*' gan William Smith. Parhaodd i argraffu hyd ei farwolaeth, 20 Hydref 1785.

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

O. Gaianydd Williams, *Dafydd Jones o Drefriw (1708-1785)* (Caernarfon 1907)

Morris Jones, *Hanes Trefriw fel y bu ac fel y mae sef desgrifiad cryno o'r ardal a'r trigolion* (Llanrwst 1879)

A. O. Evans, 'Dafydd Jones, Trefriw, 1708-1785,' *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Awst 1937

G. J. Williams (gol.), *Llythyrau at Ddafydd Jones o Drefriw*, cyfres iii, rhif 2, 1943

*Cofrestri Esgobaeth Bangor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn Ll.G.C.

J. H. Davies, *Catalogue of Additional Manuscripts in the National Library of Wales*

*NLW MSS* 783, 841, 843, 2039, 3107

Archifau LlGC: NLW MS 476E: Llythyrau at David Jones ('Dewi Fardd')

Archifau LlGC: NLW MS 783B: Barddoniaeth, &c.

Archifau LlGC: NLW MS 841E: Barddoniaeth

Archifau LlGC: NLW MS 843B: Barddoniaeth

Archifau LlGC: NLW MS 2039D: Letters to Ieuan Fardd, &c.

Archifau LlGC: NLW MS 3107B: Amseryddiaeth a Barddoniaeth

*Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London 1850), 1841-5


## Gweithiau

David Jones, *History Nicodemus neu yn hytrach ysgrifen Nicodemus, oherwydd na ddetholodd yr Eglwys ond pedair Efengil* (Dolgelley

c.1800)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 266441280

Wikidata: Q18527386

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu